Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon



# Y Celfyddydau, Chwaraeon ac Adfywio Cymunedol

Ebrill 2005

Lluniau trwy garedigrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan Gelfyddydol ac Adnoddau Cymunedol Ballymun, CARAD (Celfyddydau Cymunedol Rhaeadr a'r Cylch), Mike Durke, Townhill a Phlant y Cymoedd.

Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth:

Ruth Hughes
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617
E-bost: culture.committee@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.cymru.gov.uk

G/417/04-05
ISBN 0 7504 3684 0

Ebrill
CMK-22-09-007

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

# Cynnwys


| | | | Tudalen |
|---|---|---|---|
| Rhagair | | | i |
| Aelodau'r Pwyllgor | | | iii |
| • Prif Negeseuon | | | v |
| • Polisïau | - | Argymhellion | 1 |
| | - | Beth mae Pobl wedi'i Ddweud | 2 |
| | - | Sylwadau | 4 |
| • Arferion | - | Argymhellion | 9 |
| | - | Beth mae Pobl wedi'i Ddweud | 10 |
| | - | Sylwadau | 12 |
| | | CARAD | 14 |
| | | Plant y Cymoedd | 16 |
| | | Canolfan Phoenix | 18 |
| | | Ballymun | 20 |
| • Ariannu | - | Argymhellion | 25 |
| | - | Beth mae Pobl wedi'i Ddweud | 26 |
| | - | Sylwadau | 28 |
| Atodiadau | | | |
| Atodiad 1 - Ymchwil | | | 33 |
| Atodiad 2 - Cylch Gorchwyl | | | 39 |
| Atodiad 3 - Cyflwyniadau Llafar | | | 41 |
| Atodiad 4 - Ymatebion ysgrifenedig | | | 43 |


# Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor



Dyma'r tro cyntaf i bolisïau ar y celfyddydau a chwaraeon (yn yr ystyr ehangaf), ac adfywio cymunedol, gael eu hystyried gyda'i gilydd, naill ai yng nghyd-destun datblygu polisi, neu effaith y tri pholisi ar weithgareddau ar lefel gyffredinol. Mae'r adolygiad hwn wedi ceisio gwneud hynny.

Nid oedd gan unrhyw unigolyn na sefydliad a ysgrifennodd atom neu a welsom, unrhyw amheuon am y rhyngberthynas angenrheidiol rhwng y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau adfywio cymunedol. Ond mae amheuon o ran a yw'r rheini sy'n llunio'r polisïau yn deall beth sydd ei angen ar lawr gwlad, fel y mae'r ymarferwyr yn ei gweld hi, ac a yw'r polisïau cyfredol yn cefnogi'r gwaith o adfywio cymunedau yn y ffordd fwyaf cyflawn bosibl.

Ein tasg, felly, oedd sefydlu i ba raddau y mae angen trosi safbwyntiau'r ymarferwyr ac eraill o fewn y cymunedau, sydd wedi'u hategu gan ymchwil a gwerthuso, yn bolisïau ac yn weithgareddau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill ddylanwadu arnynt; ac os felly, sut i wneud hynny.



Rosemary Butler AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

# Aelodau

## Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon



Rosemary Butler
(Cadeirydd)
Llafur



Leighton Andrews
Llafur



Lorraine Barrett
Llafur



Eleanor Burnham
Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru



Lisa Francis
Plaid Geidwadol Cymru



Denise Idris-Jones
Llafur



Elin Jones
Plaid Cymru



Laura Anne Jones
Plaid Geidwadol
Cymru



Alun Pugh
(Gweinidog y Cynulliad)
Llafur



Owen John Thomas
Plaid Cymru

# PRIF NEGESEUON

- **Mae'r celfyddydau a chwaraeon yn rhan annatod o lwyddiant hirdymor gwaith adfywio cymunedol, nid dim ond yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ond ledled Cymru**
- **Nid yw polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru na'r arian a roddir i adfywio yn rhoi cydnabyddiaeth lawn i gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon, gan gynnwys y polisïau ar iechyd, addysg a'r economi**
- **Mae angen cydgysylltu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn well er mwyn sicrhau y manteision mwyaf posibl o gelfyddydau a chwaraeon**
- **Mae angen gwneud mwy o ymchwil yng Nghymru er mwyn darparu sylfaen, a gwneud y mwyaf o rôl y celfyddydau a chwaraeon mewn gwaith adfywio cymunedol ym mhob un o bolisïau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru**
- **Dylid ystyried elfennau'r celfyddydau a chwaraeon mewn adfywio cymunedol fel prosiectau tymor hir, ac nid fel atebion cyflym, dros-dro**
- **Mae angen i fentrau'n ymwneud â chelfyddydau a chwaraeon sy'n cyfrannu at adfywio cymunedol gael cymorth seilwaith cynaliadwy**
- **Nid oes glasbrint penodol ar gyfer datblygiadau llwyddiannus o ran y celfyddydau a chwaraeon; dylai pob prosiect gyd-fynd ag anghenion a dymuniadau'r gymuned leol**
- **Mae Cymru yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel arweinydd ym maes celfyddydau cymunedol, ond nid yw polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cydnabod yn ddigonol**
- **Mae'r camau sy'n rhaid eu cymryd i gael mynediad i'r arian ar gyfer datblygiadau o ran y celfyddydau a chwaraeon yn rhy gymhleth**
- **Mae angen i'r holl bolisïau ariannu fod yn hyblyg rhag llesteirio datblygiadau a menter yn lleol**



Adran 1

# Polisïau

## POLISÏAU: ARGYMHELLION

- **mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod rôl y celfyddydau a chwaraeon fel rhan annatod o'r holl broses o adfywio cymunedol trwy gyfrwng ei pholisïau**

- **dylid ystyried integreiddio'r celfyddydau a chwaraeon ym mholisïau adfywio cysylltiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar iechyd, addysg, cyflogaeth a'r economi, a chydgysylltu'r polisïau hynny drwy fecanwaith sy'n cwmpasu'r cyfan**

- **dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi rhagor o ystyriaeth i'r materion a amlygwyd yn y gwaith ymchwil gan Brifysgol Morgannwg a Chelfyddydau Gwirfoddol Cymru**

## POLISÏAU: BETH MAE POBL WEDI'I DDWEUD

- "Mae polisi economaidd ac adfywio yn dal i esgeuluso rôl y celfyddydau a chwaraeon wrth adfywio, nid ydynt yn rhoi digon o werth arnynt, na digon o arian, a chaiff y rôl ei gwthio i'r cyrion (os yw'n bresennol o gwbl)." (Cyngor Sir Ddinbych)
- "Mae'n siwr o fod yn saff i ddweud y gall y celfyddydau a chwaraeon gyflawni mwy o rôl o lawer o fewn yr agenda adfywio nag sydd wedi'i ganiatáu o'r blaen." Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- "Bydd unrhyw fenter nad yw'n gwneud defnydd effeithiol o faterion diwylliannol a chwaraeon yn tangyflawni ym mhob maes." (Sefydliad Rheoli Hamdden a Mwynderau) (ILAM)
- "Mae celf a chwaraeon yn chwarae rôl hanfodol wrth adfywio cymunedau difreintiedig." (Groundwork Cymru)
- "Nid yw'r polisi sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol yn rhoi digon o ystyriaeth i'r cyfraniad pwysig a wneir gan y celfyddydau a chwaraeon ac mae unrhyw gydnabyddiaeth o'r fath yn tueddu i ganolbwyntio ar gelfyddyd a chwaraeon ffurfiol, lle y dylai bwysleisio gwerth mathau anffurfiol." (Groundwork Cymru)
- "…. angen dull ochrol o lunio polisi yn y Cynulliad yn hytrach na dull fertigol." (Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru)
- "…. mae'r hyn y mae grwpiau ac unigolion ar lawr daear yn ei gydnabod fel rhywbeth perthnasol, hygyrch a gonest yn gwbl wahanol i'r polisi sy'n cael ei sefydlu gan y pwerau sy'n bodoli." (Theatr Fforwm Cymru)
- "Dyw rhaglenni adfywio cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru ddim yn nodi gweithgareddau chwaraeon na chelfyddydol fel themâu allweddol er bod tystiolaeth gref fod y ddau faes yn gyfryngau o fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â iechyd, troseddu, cyflogaeth ac addysg." (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
- "Mae llawer o'r polisïau a gefnogir gan y Gronfa (Cyfleoedd Newydd) wedi defnyddio gweithgareddau chwaraeon a chelfyddydol fel ffordd o ymwneud â chymunedau ac fel ysgogiad i'w hadfywio." (Y Gronfa Cyfleoedd Newydd)

- "Mae'r cysylltiadau rhwng polisi celfyddydau, polisi chwaraeon ac adfywio cymunedol yng Nghymru yn wan iawn." (Columbia Publishing)
- "Yn sgil degawdau o ymchwil cenedlaethol, gwelwyd cyfatebiaeth gadarnhaol gref rhwng lles economaidd a chymdeithasol a buddsoddiad cyhoeddus mewn chwaraeon a chelf." (Academi)
- "Yr her i ddarparwyr gwasanaethau yw darganfod pwysigrwydd y celfyddydau a chwaraeon wrth adfywio'n gymdeithasol ac yn economaidd pan nad oes tystiolaeth, yn gyffredinol, i ategu'r manteision tybiedig." (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)
- "....mae cyfuniad o chwaraeon ac adfywio yn cyflawni pethau ar lefel y tu hwnt i'r unigolyn mewn ffyrdd sy'n helpu i ddatblygu ac adfywio cymunedau." (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent)

## POLISÏAU: SYLWADAU

Nid oes unrhyw amheuaeth gennym bod gan y celfyddydau a chwaraeon ran hollbwysig i'w chwarae wrth adfywio cymunedau. Ond wrth edrych ar y prif bolisïau yn y maes hwn, rydym yn gweld rhai anghysonderau o ran cydnabod y rôl hon. Er enghraifft, yn "Cymunedau'n Gyntaf", nid yw'r celfyddydau a chwaraeon wedi'u cynnwys fel prif benawdau'r themâu. Ond mae polisïau'r celfyddydau a chwaraeon, "Cymru Greadigol" a "Dringo'n Uwch" yn pwysleisio'r angen i ymwneud â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a datblygiadau cymunedol awdurdodau lleol, ac yn benodol o ran y Cyrff Cyhoeddus perthnasol a Noddir gan y Cynulliad (CCNC).

Ymddengys hyn yn anghyson i ni; un ochr o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod yr angen i'w strategaethau ystyried un o brif amcanion y Llywodraeth - adfywio cymunedol, tra nad yw'r arweinydd yn y maes hwn yn cydweithio i'r un graddau.

Yn hyn o beth, rydym yn rhannu rhwystredigaeth y rheini a ymatebodd i'r adolygiad. Mae un sylw yn crynhoi'r safbwynt cyffredinol: "Mae polisi economaidd ac adfywio yn dal i esgeuluso rôl y celfyddydau a chwaraeon wrth adfywio, nid ydynt yn rhoi digon o werth arnynt, na digon o arian, a chaiff y rôl ei gwthio i'r cyrion (os yw'n bresennol o gwbl)." Ymddengys mai rhan o'r broblem yw'r diffyg tystiolaeth gadarn o gyfraniad y gweithgareddau celfyddydol a chwaraeon a leolir yn y gymuned. Ond mae'r prif asiantaethau sy'n gweithredu ar ran y celfyddydau a chwaraeon yn cydnabod gwerth gwaith yn y gymuned. Yn ei strategaeth ddatblygu bum mlynedd, mae Cyngor y Celfyddydau yn nodi:

*"Mewn rhai cylchoedd mae'r farn yn aros fod y celfyddydau yn rhywbeth ychwanegol yn y dasg o adfywhau cymdogaethau, yn arbennig y rhai hynny sy'n dioddef o amddifadedd lluosog. Gall y celfyddydau ymdrin nid yn unig â symptomau gwaharddiad cymdeithasol ein cymunedau, gall hefyd ymdrin â'r achosion. Mae gweithgareddau'r celfyddydau, yn arbennig y rhai hynny a gyflwynir gan sefydliadau celfyddydau cymunedol a chelfyddydau gwirfoddol eisoes wedi dangos eu heffaith uniongyrchol ar y pedwar dangosydd allweddol o waharddiad cymdeithasol: sef iechyd, trosedd, addysg a chyflogaeth."*

Mae'r Cyngor Chwaraeon yn adleisio'r thema yn ei Gynllun Corfforaethol 2005-2008:

*"Gall datblygu chwaraeon gael effaith sylweddol ar wella iechyd, addysg gydol oes a datblygiad cymunedol, a bydd yn sicrhau manteision eilradd hefyd o ran datblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth. Bydd hyn o fantais arbennig o ran egwyddorion y brif ffrwd, sef cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a datblygiad cynaliadwy, gan ganolbwyntio'n helaeth ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf."*

Er ein bod yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r cyrff hyn, nid yw ynddo'i hun yn ddigonol i wneud y defnydd gorau o gyfraniad posibl datblygiadau celfyddydol a chwaraeon. Er enghraifft, adroddwyd bod rhwystrau i waith o'r fath o gyfeiriad datblygiadau Cymunedau yn Gyntaf. Mae angen dechrau, felly, ar lefel polisi. Ond mae angen edrych y tu hwnt i ddiwylliant a Chymunedau yn Gyntaf. Rydym wedi gweld drosom ein hunain, ac wedi clywed am sawl enghraifft o'r manteision sy'n gallu dod yn sgil y celfyddydau a chwaraeon o ran iechyd, addysg, lleihau troseddu, diweithdra a'r economi, y mae eu rhaglenni a'u polisïau hefyd yn cyfrannu at amcanion adfywio.  Fodd bynnag, mae'r agwedd ehangach hon y tu allan i gylch ein hadolygiad, ond rydym yn credu'n gryf ei bod yn haeddu ystyriaeth bellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Ymchwil

Mae Atodiad 1 yn disgrifio peth o'r ymchwil sydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Yng Nghymru mae dau ddarn o waith cyfredol sy'n debygol o gael eu cyhoeddi tua'r un adeg â'r adroddiad hwn: "Ffordd Hir a Throellog: y Celfyddydau mewn Datblygiad Cymunedol a Dargedir", sef adroddiad gan Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru, a "Changing Spaces - Building Social Capital in Wales Through Cross Sector Creativity", adroddiad gan Adran Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Morgannwg. Roedd y gwaith gan Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru, a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn gwerthuso gwaith chwe phrosiect celfyddydol wedi'u lleoli yn y gymuned, mewn perthynas â'u gwerth yn y broses adfywio cymunedol. Dyma'r prosiectau:

- Broli Cymraeg yn Sir y Fflint

- Gweithdy Serameg Cymunedol y Gurnos ym Merthyr Tudful
- Celfyddydau yn Adfywio Cwm Rhymni Uchaf (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)
- Theatr Byd Bychan yn Sir Benfro
- Eglwys Gymunedol Noddfa yng Nghaernarfon
- Cywaith Cymru yn Sandfields ac Aberafan, Castell-nedd Port Talbot

Er nad oedd canlyniad y gwaith hwn yn hysbys (adeg ysgrifennu'r adroddiad), roedd y canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu y gall y celfyddydau wneud cyfraniadau sylweddol tuag at adfywio cymunedol.

Yn yr un modd, nid oedd astudiaeth Prifysgol Morgannwg wedi'i chyhoeddi, ond mae rhai o'i chasgliadau yn ddigon tebyg i'n rhai ni, er enghraifft:

- mae'n dal i fod angen datblygu mwy ar bolisïau yng Nghymru sydd â'r nod o annog ymwneud traws-sector rhwng y celfyddydau/diwylliant/treftadaeth a sectorau eraill fel addysg, datblygu cymunedol a datblygu economaidd, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, ynghyd â'r ymarfer traws-sector ei hun.
- nododd pobl anghysondeb tybiedig, neu ddiffyg rhyngweithio o leiaf, rhwng polisi ac arfer. Y teimlad cyffredinol yw bod cysyniadau fel cynhwysiant, mynediad ac ati yn bwerus ymhlith y rheini sy'n llunio polisïau ond nad ydynt yn cysylltu bob amser â phrosiectau ar lawr daear.

Er ei bod yn anffodus nad oedd gwaith ar yr adolygiad hwn ac ar y ddwy astudiaeth yn cyd-daro, mae digon o dir cyffredin i gyfiawnhau gwaith pellach yn y maes hwn. Rydym o'r farn y dylid adeiladu ar yr hyn y mae'r Brifysgol eisoes wedi'i wneud.



Adran 2

# Arferion

# ARFERION: ARGYMHELLION

- **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cynnal archwiliad o weithgareddau adfywio cymunedol sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau a chwaraeon ac yn cael eu cyllido o'r coffrau cyhoeddus**

- **Ni ddylid cyfyngu'r archwiliad hwn i weithgareddau a gefnogir gan yr asiantaethau diwylliannol ond dylai hefyd gynnwys y rheini a gefnogir gan awdurdodau lleol**

- **Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried dulliau ymarferol o rannu arferion gorau ymysg yr holl asiantaethau er mwyn cydgysylltu gwaith yn y maes hwn yn fwy effeithiol. Dylai hyn gynnwys datblygu canllawiau ar arferion gorau (yn seiliedig ar gyngor y rheini sy'n gweithio yn y maes). Dylid dosbarthu'r canllawiau'n eang a defnyddio Cymru'n Creu neu'r Bwrdd Diwylliant newydd fel fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth yn y maes hwn**

## ARFERION: BETH MAE POBL WEDI'I DDWEUD

- "trwy bartneriaethau rhwng y gymuned leol, yr awdurdod lleol a chyrff cenedlaethol y daeth prosiectau llwyddiannus o'r fath i fod." (Sefydliad Rheoli Hamdden a Mwynderau - ILAM)
- "dim ond drwy fabwysiadu dull gweithredu holistaidd y gellir sicrhau adfywio cymunedol hirdymor a gwirioneddol effeithiol." (Groundwork)
- "mae'r celfyddydau a chwaraeon yn arfau pwerus ar gyfer sicrhau newid cadarnhaol, sy'n effeithio'n sylweddol ar lefydd, pobl a chymunedau. …. maent yn cynnig cryn fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol." (Groundwork)
- "yng ngolwg gweddill y DU ac Ewrop mae Cymru ar flaen y gad ym maes y celfyddydau cymunedol... ." (Cymdeithas Celfyddydau Cymunedol Cymru)
- "mae defnyddio doniau, sgiliau, creadigrwydd ac ymrwymiad pobl mewn proses gyfunol yn elfen hanfodol yn y gwaith o adnewyddu'r cymunedau tlotaf, sydd wedi'u gwthio i'r cyrion pellaf." (Cultural Concerns)
- "mae prosiectau celfyddydol a chwaraeon, pan gânt eu darparu'n lleol... yn gallu bod yn ffynhonnell gwaith uniongyrchol ac anuniongyrchol... yn gallu gwella amgylchedd ffisegol cymuned ac... yn annog gwahanol ddarparwyr lleol i gydweithio... ." (CLlLC)
- "... rydym yn cyllido prosiectau sy'n cael eu llywio gan y cymunedau eu hunain ac yn adlewyrchu anghenion y cymunedau hynny… (neu) lle mae'n rhaid creu strwythur addas er mwyn datblygu prosiectau." (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- "mae swyddogion celfyddydau'r awdurdodau lleol yr ydym wedi siarad â hwy wedi dangos lefel uchel o ymwybyddiaeth o botensial prosiectau celfyddydol i gyfrannu at adfywio cymunedol." (Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru)
- "mae cyfle i'r sefydliadau celfyddydol lu ledled Cymru rannu'r profiad y maent wedi'i fagu (sydd eisoes yn digwydd) a hefyd rhannu profiadau â swyddogion yr asiantaethau cyhoeddus (sy'n digwydd yn llai aml)." (Chapter)

- "(rhoddwyd) rhaglenni celfyddydol arwyddocaol (ar waith) a oedd yn cynnwys gweithio gydag artistiaid allanol, cyflogi artistiaid preswyl a chyflogi Cyd-drefnydd Celfyddydau i weithio i Ymddiriedolaeth." (Groundwork Cymru)
- "Mae Groundwork yn ceisio darparu cyfleusterau hamdden er budd cymdeithasol gyda'r nod o wella amodau byw a llenwi amser y rheini sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag ardaloedd difreintiedig." (Groundwork)
- "gallai dulliau gweithredu ar gyfer tynnu artistiaid ynghyd... fod yn adnodd gwerthfawr i greu dyfeisgarwch pellach a nodi a rhannu arferion gorau." (Theatr Fforwm Cymru)
- "mae creu cysylltiad cyson rhwng asiantaethau sy'n ymddangos yn anghysylltiedig yn rhan annatod o sefydlu arferion gorau." (Academi)
- "... rydym yn obeithiol y bydd yr adolygiad yn cydgrynhoi rôl celfyddydau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru fel partneriaid allweddol wrth sicrhau cydlyniant cymdeithasol ac adfywio cymunedol." (Cymdeithas Ddrama Cymru)
- "... mae'r celfyddydau cymunedol yn aml yn waith proffil isel yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, ac maent yn gweithredu'n gynyddol fel ychwanegiadau at raglenni adfywio ehangach." (Celfyddydau Gwirfoddol Cymru)
- "Gall y celfyddydau ymdrin nid yn unig â symptomau eithrio cymdeithasol yn ein cymunedau; gall hefyd ymdrin â'r achosion. Mae gweithgareddau'r celfyddydau, yn arbennig y rhai hynny a gyflwynir gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol eisoes wedi dangos eu heffaith uniongyrchol ar y pedwar dangosydd allgáu cymdeithasol: sef iechyd, trosedd, addysg a chyflogaeth." Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC)
- "Bydd unrhyw fenter nad yw'n gwneud defnydd effeithiol o ddiwylliant a chwaraeon yn tangyflawni ym mhob maes." (ILAM)

## ARFERION: SYLWADAU

Er nad oes lle blaenllaw i'r celfyddydau a chwaraeon ym mholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes adfywio, mae'r ymatebion a gafwyd gan bobl ar lawr gwlad yn awgrymu bod pobl yn ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwyd eisoes. Ond mae peth rhwystredigaeth ynghylch y ffordd ddarniog o weithredu, a chaiff hyn ei ddwysáu gan bolisïau cyffredinol nad ydynt yn cydweddu a'i gilydd.  Fodd bynnag, mae rhai partneriaethau llwyddiannus, yn arbennig o fewn yr awdurdodau lleol.

Rydym yn credu bod angen tynnu polisïau ynghyd ac, yn yr un modd, mae angen tynnu ynghyd y gwaith a wneir ar lefel gymunedol. Mae angen dull holistaidd o weithredu ar bob lefel. Ond nid ydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio llunio glasbrint ar gyfer gweithgarwch lleol. Yn hytrach dylai gyhoeddi canllawiau, yn seiliedig ar gyngor pobl sy'n weithgar yn y maes. Ni ddylid anghofio chwaith mai'r hyn sydd ei eisiau a'i angen ar gymuned benodol yw'r hyn sy'n gweithio fel rheol.

Byddai'r canllawiau hyn, o'u cyhoeddi'n eang ac yn rheolaidd, yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o gyfraniad y celfyddydau a chwaraeon i adfywio cymunedol. Nid yw llawer o'r sefydliadau a'r unigolion allweddol yn y maes hwn yn ymwybodol, neu nid ydynt wedi'u darbwyllo, o'r cyfraniad enfawr y gall y celfyddydau a chwaraeon ei wneud i'r gwaith o adfywio cymunedau.

Nid oes gennym ddarlun manwl o'r holl weithgarwch celfyddydol a chwaraeon sy'n digwydd ym maes adfywio cymunedau - nid dim ond yr hyn a gefnogir gan asiantaethau sylfaenol fel Cyngor y Celfyddydau, y Cyngor Chwaraeon, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Awdurdodau Lleol, ond hefyd y gwaith a wneir gan amryw o fudiadau gwirfoddol bychan sy'n anodd iawn i'w gofnodi mewn ystadegau. Nid ydym yn awgrymu y dylid ceisio nodi pob gweithgarwch, ond byddai cynnal archwiliad o'r hyn sy'n cael cymorth o'r coffrau cyhoeddus, gan yr asiantaethau diwylliannol a'r awdurdodau, yn gam cyntaf da.

Mae angen cyflwyno dulliau gweithredu i alluogi'r rheini sy'n flaenllaw yn y maes i rannu gwybodaeth. Awgrymwyd y gallai Cymru'n Creu fod yn fforwm priodol i gyflawni hyn, er y gallai Bwrdd Diwylliant newydd Cymru, ar ôl ei sefydlu, fod yn fan cychwyn mwy defnyddiol i'w ystyried.

Yn olaf, yn yr adran hon, rydym yn cynnig pedair enghraifft o ddatblygiadau y mae aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â hwy. Dim ond enghreifftiau yw'r rhain o'r hyn y gellir ei gyflawni, ond maent yn tanlinellu'r neges gyffredinol na all y Llywodraeth fforddio anwybyddu gwerth y celfyddydau a chwaraeon wrth adfywio. Nid ychwanegiadau mohonynt, ond ysgogiad i newid.

## CARAD



Adnodd aml-gyfrwng ar gyfer y celfyddydau cymunedol yw **Carad** (Celfyddydau Cymunedol Rhaeadr a'r Cylch), ac mae wedi'i leoli yn Rhaeadr, Powys. Ei genadwri yw:

- annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol sy'n ymwneud â threftadaeth er lles cymdeithasol a diwylliannol
- annog unigolion i ddatblygu a rhannu sgiliau sydd ganddynt eisoes a'u hysgogi i ddysgu rhai newydd
- defnyddio prosiectau creadigol i bortreadu a dathlu lleisiau neilltuol yr ardal
- gweithio mewn partneriaeth â phobl o bob oed a gallu i feithrin hyder, gwaith ac ymwybyddiaeth o le.

Datblygodd Carad o grŵp a gynhyrchodd ddrama gymunedol dra-llwyddiannus ym 1994 o'r enw Y Delyn Golledig - The Lost Harp. Arweiniodd hyn at gryn alw yn lleol am bob math o weithgareddau celfyddydol a gweithgareddau'n ymwneud â'r cyfryngau. Bellach mae'n darparu:

**Carad 1:** lle aml-bwrpas a ddefnyddir ar gyfer y celfyddydau gweledol fel serameg, printio sgrîn sidan, peintio sidan, argraffu, gwneud barcudiaid, cerfio copr, dylunio gerddi, gwaith coed a cherfio coed, gwaith gwydr, dylunio setiau, gwneud gwisgoedd, gwneud basgedi, gwehyddu, dylunio murluniau a phypedwaith.  Sefydlwyd ymhell dros 100 o'r prosiectau hyn ers 1997.

**Carad 2:** adnodd aml-gyfrwng sy'n cynnwys amryw o elfennau cysylltiedig, gan gynnwys:

- stiwdio sain
- ystafell ddylunio ac argraffu
- cyfleusterau ffotograffeg a
- man cynadledda/cyfarfod/perfformio.

Prosiect amgueddfa dreftadaeth gymunedol yw **Croniclau Carad**, a fydd yn cyflwyno straeon am bobl, llefydd a digwyddiadau lleol. Bydd yn ailarddangos Casgliadau Rhaeadr, sef deunydd am hanes lleol, archaeoleg a hanes naturiol sy'n cael ei arddangos ar hyn o bryd yn Amgueddfa Rhaeadr. Bydd Croniclau Carad yn cynnwys arddangosfeydd rhyngweithiol gan ddefnyddio gwrthrychau, sain, ffilm, cyfrifiaduron a dehongliadau dramatig. Mae'r prosiect yn annog y gymuned i gymryd rhan ac mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Esmee Fairbairn yn ei gefnogi. Gyda chymorth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mae Carad yn rhedeg rhaglen wirfoddolwyr sy'n canolbwyntio ar ofalu am gasgliadau'r amgueddfa.

Hyd yma, mae Carad wedi derbyn cyllid gan 28 o sefydliadau a chwmnïau gan gynnwys: yr Academi, y Loteri, Cyngor Tref Rhaeadr a Chyngor Sir Powys ac -

- mae lle i 85 o bobl yn y theatr
- cynhelir tua deg o berfformiadau bob blwyddyn ac
- ar gyfartaledd, mae 75% o'r seddi'n cael eu llenwi

Dyma rai o flaenoriaethau strategol Carad ar gyfer 2004-07:

- cynnal a datblygu prosiect cerddoriaeth a chyfryngau deinamig, ryng-gysylltiedig sy'n ysgogi pobl o bob oedran a gallu
- sefydlu Amgueddfa Archif Fyw'r Croniclau fel atyniad creadigol a dyfeisgar i dwristiaid
- creu sefydliad sy'n gadarn yn ariannol ac yn gynaliadwy
- creu rhaglen dreftadaeth lafar a chelfyddydol a phrosiectau treftadaeth fydd o bwys cenedlaethol.

## PLANT Y CYMOEDD



Elusen yw Plant y Cymoedd sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd difreintiedig yng nghymoedd De Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 1977 fel Prosiect Cymuned Penygraig ac, erbyn hyn, mae'n gweithio mewn tair prif ganolfan ym Mhenygraig, Penyrenglyn a Rhydyfelin, gan weithredu mewn hyd at 18 o gymunedau'r cymoedd. Mae yna 50 aelod o staff a thros 150 o wirfoddolwyr yn ogystal â phroffesiynolion medrus sy'n gweithio gyda phobl leol i wella bywydau plant a theuluoedd yn y cymunedau hyn. Mae Plant y Cymoedd wedi llwyddo i sicrhau arian Amcan 1 er mwyn cyflogi tîm datblygu. Ymhlith y ffynonellau ariannu eraill mae Cyngor Celfyddydau Cymru, a chymorth corfforaethol a phartneriaethau â busnesau lleol. Pan sefydlwyd prosiect Cymuned Penygraig, roedd yr ardal yn un o'r tair ardal waethaf yn Rhondda Cynon Taf o ran lefelau troseddu ymhlith ieuenctid. Erbyn hyn mae Penygraig ymhlith y tair ardal orau yn Rhondda Cynon Taf.

Mae Plant y Cymoedd yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n agored i bawb, ac sy'n cynnwys y cyfleoedd canlynol ar gyfer:

- **plant a theuluoedd** - meithrinfa, grwpiau cymorth i deuluoedd, sesiynau rhieni a chwarae a grwpiau cymorth i ferched yn eu harddegau
- **chwarae** - pob math o weithgareddau chwarae ledled Rhondda Cynon Taf, er enghraifft clybiau ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae yn y gwyliau, clybiau ieuenctid iau, clybiau canol, a sesiynau chwarae symudol ar ddau fws enfys deulawr

- **ieuenctid** - gweithio gyda phobl ifanc sy'n aml yn cael eu gwahardd o'r ysgol, mewn trafferth gyda'r heddlu oherwydd mân-droseddu a fandaliaeth neu’n camddefnyddio alcohol neu gyffuriau
- **cymuned** - grwpiau sgiliau bywyd i fenywod, sesiynau galw i mewn 16+, adfocatiaeth wrth chwilio am waith, partneriaethau, campfeydd cymunedol, cynghorfeydd iechyd a thai
- **Artworks** - prosiect aml-ddisgyblaeth sy'n defnyddio theatr, dawns, cerddoriaeth a fideo i helpu pobl ifanc sydd wedi'u dadrithio
- **gwaith preswyl** - ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dros un cyfnod o 12 mis:

- bu 1,954 o blant a phobl ifanc mewn sesiynau chwarae, ieuenctid a gwaith celf
- bu 137 o blant a phobl ifanc yn rhan o brosiectau cymorth i deuluoedd
- bu 64 o wirfoddolwyr ifanc yn helpu i reoli a chynnal gweithgareddau
- aeth 1,690 o bobl i berfformiadau
- gwirfoddolodd 101 o oedolion i reoli, cynllunio, cynnal gweithgareddau a chodi arian

Drwy fentrau fel Artworks, mae pobl ifanc yn cael y cyfle i fynd i'r afael â materion cymdeithasol a heriau emosiynol sy'n effeithio ar eu bywydau.

## CANOLFAN PHOENIX



Agorwyd Canolfan Phoenix yn Townhill, Abertawe ar 2 Mawrth 2001 a dyma'r ganolfan ddatblygu economaidd gymunedol gyntaf o'i math yng Nghymru. Mae'r Phoenix yn ddatblygiad blaenllaw gan Fenter Gymunedol URBAN a luniwyd i adfywio cymunedau Townhill/Mayhill yn Abertawe. Prif swyddogaeth y Ganolfan yw hyrwyddo gweithgarwch economaidd o fewn y gymuned leol ac ar ei chyfer, gan ddarparu cyfleuster ar gyfer datblygu syniadau.

Lleolir Canolfan Phoenix ar dir serth rai milltiroedd o ganol y ddinas ac mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael yn ychwanegu at ei lleoliad ynysig. Mae lefelau diweithdra ac amddifadedd cymdeithasol yr ardal yn uchel, a gweithgarwch economaidd a chyrhaeddiad addysgol yn isel.

Mae'r ganolfan, sy'n eiddo bellach i Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Phoenix, yn werth £1.5 miliwn ac fe'i hariennir gan:

- Dinas a Sir Abertawe
- Menter Gymunedol URBAN yr Undeb Ewropeaidd
- Cyngor Chwaraeon Cymru - SPORTLOT

Ymhlith cyfleusterau Canolfan Phoenix mae 11 o weithdai, ystafelloedd hyfforddi, ystafell TG, canolfan gwybodaeth i'r cyhoedd, a llyfrgell â 15 o gyfrifiaduron. Mae hefyd yn gartref i 'Pêl-droed yn y Cymunedau', ac mae

ynddi Ganolfan Byw'n Iach - maes chwarae at bob tywydd, caeau chwarae, cwrt amlbwrpas ac ardal sglefr-fyrddio, sy'n boblogaidd iawn gyda'r gymuned leol.

Mae tenantiaid presennol y Ganolfan yn cynnwys:

- Y Ganolfan Adnoddau Cyflogaeth
- Ymddiriedolaeth y Tywysog (Cymru)
- ffisiotherapydd
- prosiect ailgylchu cyfrifiaduron
- cerflunydd lleol
- Pêl-droed yn y Cymunedau
- Coleg Abertawe

**Erbyn Ionawr 2002:**

- roedd 1,527 o'r trigolion wedi derbyn hyfforddiant a datblygiad sgiliau
- crewyd 287 o swyddi
- roedd 7,200 o bobl wedi cael cyngor neu wedi bod yn gysylltiedig â phrosiectau
- ymgymerwyd â 34 o brosiectau tirwedd cymunedol
- roedd diweithdra wedi gostwng o 21.8% i 7.8%.

## BALLYMUN



Tref ar gyrion Dulyn yw Ballymun sy'n cynnwys pum cymdogaeth gyda thua 17,000 o drigolion. Dyma un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Iwerddon yn gymdeithasol ac yn economaidd, ond bellach mae'n rhan o'r rhaglen adfywio fwyaf yn Ewrop. Ym mis Mawrth 1997 cyhoeddodd Llywodraeth Iwerddon ei bod yn neilltuo   228.5 miliwn ar gyfer adfywio Ballymun.  Roedd hyn yn cynnwys datblygiadau ym maes y celfyddydau a chwaraeon:

## AXIS - Canolfan Gelfyddydol ac Adnoddau Cymunedol Ballymun

Agorwyd AXIS ym mis Mehefin 2001 ac mae'n gynghrair o grwpiau celfyddydol a grwpiau datblygu cymunedol lleol, wedi'i hariannu gan raglen URBAN yr UE drwy ROUND Ltd (Adfywio Ardaloedd Trefol Gogledd Dulyn). Fe'i lluniwyd i roi lleoliad canolog i weithgarwch celfyddydol cymunedol yn yr ardal a dyma'r adeilad cyhoeddus cyntaf i'w gwblhau yn Ballymun. Mae'n adnodd sy'n cael llawer o ddefnydd yn y gymuned ac mae'n denu cynulleidfa eang ar draws y ddinas i ddigwyddiadau celfyddydol.

## Breaking Ground

Lansiwyd rhaglen o bwys i gomisiynu gwaith celf, Breaking Ground, ym mis Chwefror 2002. Datblygwyd Breaking Ground ar ôl ymgynghori ag

artistiaid lleol, ysgolion, trigolion a grwpiau cymunedol, ac mae'n cynnwys celf gydweithrediadol lle mae datblygiad y boblogaeth leol yn ganolog.

Nod y rhaglen yw creu ystod amrywiol ac eclectig o brosiectau celf a fydd yn sicrhau bod Ballymun yn ganolfan o bwysigrwydd rhyngwladol o fewn y gymuned gelfyddydol.

## Chwaraeon a Hamdden

Ym mis Chwefror 1999 comisiynwyd tîm prosiect i ymchwilio i'r anghenion chwaraeon a hamdden yn Ballymun ac i argymell strategaeth ar gyfer datblygu cyfleusterau a rhaglenni yn y dyfodol.

Nodwyd dau brif faes:

- gwneud gwell defnydd o adnoddau presennol drwy wella cyfleusterau a rheolaeth
- datblygu cyfleusterau newydd sydd ag apêl eang iddynt a diwallu ystod eang o anghenion.

O ganlyniad i'r strategaeth hon mae canolfan hamdden gwerth £10 miliwn yn cael ei chodi ar hyn o bryd ar y brif stryd newydd yn Ballymun. Bydd y ganolfan hamdden yn cynnwys:

- pwll nofio a chanolfan hamdden dŵr
- campfa, gan gynnwys stafell codi pwysau a stafell iechyd
- crèche
- ardaloedd gwylio a gerddi pen to
- siopau, swyddfeydd, bwyty a maes parcio tanddaear i tua 100 o geir.



# Adran 3

# Ariannu

## ARIANNU: ARGYMHELLION

- **mae ar y celfyddydau a chwaraeon angen rhan mwy blaenllaw yn rhaglenni cyllido Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru**

- **mae angen ystyried pob rhaglen gymorth a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i asesu eu potensial i gynorthwyo cymunedau yn y tymor hir. Lle bo'n bosibl, dylai ariannu y tu hwnt i bum mlynedd fod yn opsiwn, er bod angen llunio "strategaethau ymadael" priodol fel nad yw gwerth y datblygiad gwreiddiol yn cael ei golli unwaith y daw'r cyllid i ben**

- **mae angen symleiddio'r dull o gael gafael ar arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i wneud yn fwy hyblyg er mwyn hwyluso datblygiad a menter lleol**

- **dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cydnabyddiaeth briodol i gelfyddyd gymunedol yng Nghymru drwy roi cyllid a chefnogaeth ychwanegol**

## ARIANNU - BETH MAE POBL WEDI'I DDWEUD

- "Byddai rhagor o fuddsoddi mewn monitro, gwerthuso ac ymchwilio i brosiectau celf hefyd yn helpu i fesur manteision hirdymor y cysylltiad â'r celfyddydau yn ogystal â dod o hyd i enghreifftiau o arfer gorau." (Theatr Fforwm Cymru)
- "mae'r dulliau cymorth yn fratiog ac yn dila. Mae'r celfyddydau a chwaraeon yn cael eu hystyried fel pethau i wario arian arnynt dim ond os oes arian sbâr ar gael, ac nid ydynt yn cael eu cydnabod fel elfennau craidd mewn unrhyw broses adfywio." (Cyngor Sir Ddinbych)
- "mae'r ddau wasanaeth (y celfyddydau a chwaraeon) yn ddewisol a phan fydd arian yn brin... bydd y gwasanaethau statudol yn ei fachu." (Cyngor Sir Ddinbych)
- "... dim ond ychydig o asiantaethau cyhoeddus sy'n gallu cynorthwyo'r sector gwirfoddol i gael gafael ar gymorth, ac mae cydweithrediad rhwng asiantaethau yn dal yn beth prin ac yn aml nid yw celf a'r diwydiannau creadigol yn cael eu deall yn dda iawn." (Chapter)
- "Rhowch gymorth hirdymor i sefydliadau sy'n gyson lwyddiannus." (Rubicon)
- "am dymor byr yn aml mae arian ar gael, tra bod angen cyfnod hirach cyn i fanteision cynaliadwy ddod i'r amlwg." (ILAM)
- "... Nid oes gan grwpiau/sefydliadau lleol yr hyder/yr wybodaeth am y prosesau sy'n ofynnol i gael cymorth ac i weithredu fel y "sylfaenydd cyntaf" i ddenu arian cyfatebol." (ILAM)
- "... yn aml mae prosiectau'n canolbwyntio ar ofynion y sefydliad ariannu neu raglen benodol, yn hytrach nag ar anghenion y rheiny y bwriedir eu bod yn dderbynwyr." (ILAM)
- "... mae dyfodol llawer o artistiaid cymunedol o dan fygythiad oherwydd y gostyngiadau cyfredol yn yr arian sydd ar gael o Gronfa'r Loteri Genedlaethol..." (Cymdeithas Celfyddydau Cymunedol Cymru)
- "mae ymdrechion i gyflogi Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau... yn dal yn dameidiog mewn llawer o awdurdodau unedol." (Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru)

- "er ei bod yn hanfodol rhoi cymorth i brosiectau celfyddydol sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol mae hefyd yn bwysig nad yw hynny'n cael ei wneud yn amodol ar eu gallu i sicrhau canlyniadau adfywio penodedig." (CGGC)
- "O ran cefnogi adfywio, ychydig o awdurdodau sydd â'r fframwaith cynhwysol i sicrhau bod strategaethau partneriaeth yn cael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn gydlynus, ac mae prinder dulliau cefnogi effeithiol i bartneriaethau." (Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru)
- "... mae sylfaen ariannu'r sector yn hynod simsan." (VAW)
- "Mae angen i ni fod yn ofalus nad yw'r ymarferion mapio cyfredol yn gipolwg o'r hyn oedd gan Gymru ar un adeg ac a gollodd, wrth i arian y loteri leihau, ac wrth i'r Cynulliad fethu â rhoi sylw i'r apêl am arian ychwanegol i sefydlogi'r sector hanfodol hwn." (VAW)
- "... mae gwaith adfywio hyd yn hyn wedi nodi prinder cysylltiadau rhwng adfywio a mentrau cymunedol allweddol... gan olygu colli cyfle i atgyfnerthu mentrau adfywio a'r potensial i wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu allanol." (Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru)
- "Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, mae angen strwythurau ariannu sy'n caniatáu ac yn hwyluso trefniadau hirdymor. O fewn y gweithgarwch hirdymor sydd yn bodoli, mae angen i'r dull o ariannu fod yn hyblyg er mwyn caniatáu addasu a datblygu dros amser, a sicrhau bod yr effaith yn parhau'n fanteisiol ac yn effeithiol". (Prifysgol Morgannwg)

## ARIANNU: SYLWADAU

Mae brwdfrydedd ac ymroddiad grwpiau lleol wrth adfywio eu cymunedau wedi creu cryn argraff arnom. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn fawr o hyn a'i weld fel offeryn gwerthfawr yn hytrach na'i weld fel rhywbeth ychwanegol. Wrth wneud hynny, dylid gweld y datblygiadau hyn fel rhan o'r broses hirdymor o adfywio; ni ddylid edrych ar y celfyddydau a chwaraeon fel atebion tymor byr.

O ran sefydliadau celfyddydol cymunedol a gwirfoddol ar draws Cymru mae'r mwyafrif eisoes yn ymhel â rhaglenni celf o fewn eu hardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lleol. Fodd bynnag, yn ôl arolwg, mae dros 90% o sefydliadau celfyddydol cymunedol am ehangu eu darpariaeth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond eu bod yn cael eu rhwystro gan ddiffyg cymorth ariannol a diffyg ymwybyddiaeth o'r manteision a ddaw yn sgil datblygiadau celfyddydol o fewn timau Cymunedau yn Gyntaf.

Rydym yn pryderu am hyn a'r anawsterau cyffredinol sy'n wynebu grwpiau lleol wrth iddynt geisio cael gafael ar arian; rydym felly am weld, ochr yn ochr â'r adolygiad o weithgarwch a awgrymwyd, adolygiad cyffelyb o’r cronfeydd sydd ar gael i ariannu datblygiadau celfyddydol a chwaraeon. Mae pryder gwirioneddol ynghylch dyfodol arian y Loteri ar gyfer grwpiau celfyddydol a chwaraeon gan fod y grwpiau hyn, yn aml iawn, yn hollol ddibynnol ar yr arian hwn. Mae CCC wedi ceisio gwella'r sefyllfa dros dro drwy neilltuo £½ miliwn i'r celfyddydau cymunedol yn 2004-05. Rydym yn cefnogi'r penderfyniad i beidio â dargyfeirio mwy o’u hadnoddau, sydd eisoes wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiadau eraill.

Rydym yn argymell yn gryf y dylid dod o hyd i arian ychwanegol i gefnogi grwpiau lleol sy'n gweithio ym maes y celfyddydau a chwaraeon, ond rydym hefyd yn rhoi cydnabyddiaeth arbennig i'r celfyddydau cymunedol. Mae gan y celfyddydau cymunedol yng Nghymru enw da, a hynny'n haeddiannol, nid yn unig yn y DU ond hefyd yn Ewrop a thu hwnt, fel arweinydd yn y maes hwn. Yn 2003, er enghraifft, aeth arddangosfa'r Cyngor Prydeinig o artistiaid a chwmnïau cymunedol Cymru i dros 20 o wledydd ar draws y byd er mwyn arddangos arfer gorau wrth fynd i'r afael â materion fel tlodi, democratiaeth gymdeithasol ac addysg wael.

Mewn maes lle mae Cymru ar flaen y gad, mae'n briodol rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i barhau ac ehangu gweithgareddau.

Er yr hoffem sicrhau bod grwpiau celfyddydol a chwaraeon yn cael eu cydnabod yn fwy ffurfiol ac yn gallu elwa ar arian adfywio cymunedol, ni ddylid eu cynnwys yn llwyr o fewn proses atebolrwydd, a allai, pe bai'n rhy fiwrocrataidd, lesteirio hyblygrwydd ac ymatebolrwydd. Hefyd mae angen i'r broses gyfan fod yn fwy hygyrch. Yn anffodus, nid yw hon yn gwyn newydd, a nodwn fod adroddiadau cynharach ym maes adfywio cymunedol wedi ceisio symleiddio'r llwybrau ariannu yn yr un modd, ond heb fawr o lwyddiant hyd yn hyn.

Yn ystod yr adolygiad, cafwyd dadl ynghylch a ddylai'r celfyddydau a chwaraeon fod yn wasanaethau statudol yn hytrach na dewisol o fewn yr Awdurdodau Lleol. Y ddadl oedd y byddent, fel gwasanaethau statudol, yn cael lefel warantedig o gymorth; fel gwasanaethau dewisol, byddai perygl iddynt ddioddef pe bai pwysau ar gyllidebau cyffredinol.  At ei gilydd, y teimlad oedd y byddai'n well cadw'r hyblygrwydd fel gwasanaeth dewisol.



# Atodiadau

# YMCHWIL

Gwnaed ymchwil dros nifer o flynyddoedd i weld a yw'r celfyddydau a chwaraeon yn cyfrannu at adfywio cymunedol a sut y maent yn gwneud hynny. Isod ceir rhai enghreifftiau diweddar o'r ymchwil a wnaed yn y DU, gyda manylion cryno:

## Ymchwil yng Nghymru

### Cyngor Chwaraeon Cymru

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cydnabod bod chwaraeon yn chwarae rhan i hyrwyddo tegwch o ran dosbarth cymdeithasol, rhyw, hil ac anabledd a bod chwaraeon yn annog cynhwysiant cymdeithasol ac yn cyfrannu at hunaniaeth a chydlyniant cymunedol. Mae ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2005-2008 yn cadarnhau hyn:

*"Gall datblygu chwaraeon gael effaith sylweddol ar wella iechyd, addysg gydol oes a datblygiad cymunedol, a bydd yn sicrhau manteision eilradd hefyd o ran datblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth. Bydd hyn o fantais arbennig o ran egwyddorion y brif ffrwd, sef cynhwysiad cymdeithasol, cyfle cyfartal a datblygiad cynaliadwy, gan ganolbwyntio'n helaeth ar ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf."*

Mae'r Cyngor Chwaraeon eisoes wedi ymhel â nifer o brosiectau ar draws Cymru sy'n defnyddio chwaraeon fel offeryn i helpu ag adfywio cymunedol:

- **Parc Sglefrolio Aberbargoed** – addasu'r ganolfan hamdden yn gyfleuster sy'n arbenigo mewn darparu chwaraeon amgen a darpariaeth gyffredinol ar gyfer ieuenctid.
- **Prosiect Golff Cymunedau yn Gyntaf** – mae'r prosiect, yng Nghonwy, yn defnyddio system wobrwyo drwy gynnig cymhellion i droseddwyr ifanc sy'n aros allan o drybini yn y gymuned. Mae'r prosiect yn darparu gwersi hyfforddi golff i grŵp bach o droseddwyr sy'n cael eu dewis i gymryd rhan gan swyddog heddlu lleol.

- **Partneriaeth Strategaeth Gymunedol Gorllewin a De Orllewin y Rhyl** – roedd y cynllun yn cyflogi Gweithiwr Datblygu Cymunedol a oedd yn trefnu prosiectau datblygu chwaraeon i feithrin partneriaethau rhwng grwpiau cymunedol a'r awdurdod lleol. Mae'r fenter yn defnyddio chwaraeon fel cyfrwng i bobl ifanc ailgysylltu â'u cymunedau, fel dull o ymladd yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac fel offeryn ar gyfer dysgu gydol oes.
- **Canolfan Phoenix yn Townhill, Abertawe** – prif nod y datblygiad oedd creu sylfaen ar gyfer gweledigaeth a hyder newydd i'r trigolion. Mae chwaraeon yn chwarae rhan bwysig yn y cyfleuster aml-ochrog hwn.

## Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Yn 2000, rhoddodd y Cynulliad arian i Gyngor Celfyddydau Cymru am dair blynedd i weithredu a chefnogi nifer o brosiectau celfyddydol yn y gymuned. Targedodd Cyngor y Celfyddydau chwe phrosiect gyda'r nod o gyflwyno elfen gelfyddydol i brosiectau nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cymunedol. Mae Celfyddydau Gwirfoddol Cymru wedi gwerthuso'r prosiect hwn a bwriedir i'r adroddiad gwerthuso fod ar gael ar wefan Celfyddydau Gwirfoddol Cymru[1] ddiwedd 2004.

Mae'r casgliadau'n canolbwyntio ar y lefelau ariannu sydd ar gael ac a oeddent yn caniatáu gwaith adfywio gwirioneddol, yr ymrwymiad amser sydd ynghlwm wrth godi arian pellach, y trefniadau hyblyg rhwng ariannu a thargedau a'r berthynas rhwng tîm y prosiect a Chyngor y Celfyddydau.

Mae awduron yr adroddiad yn nodi nifer o elfennau sy'n allweddol i raglenni adfywio celfyddydol llwyddiannus:

- mae cysylltiad rheolaidd, aml a chlir â chyfranogwyr, partneriaid a'r tîm yn allweddol er mwyn llwyddo
- gall unigolion mewn sefydliadau celfyddydol ac mewn cymunedau fod yn gyfrifol am lwyddiant neu fethiant prosiect
- nid yw ymgynghori yr un fath â chyfranogi

[1] Celfyddydau Gwirfoddol Cymru http://www.voluntaryarts.org/cgi-bin/website.cgi?tier1=wales

- mae angen i artistiaid gael mwy na sgiliau celfyddydol yn unig
- mae'n bwysig sicrhau hyblygrwydd ar y cychwyn ac ar y diwedd
- rhaid i unrhyw weithgarwch celfyddydol arfaethedig fodloni anghenion a dymuniadau'r gymuned
- rhaid sefydlu rheolau ymrwymo clir
- rhaid dewis celfyddyd addas
- efelychu – rhannu gwybodaeth a phrofiadau.

## Prifysgol Morgannwg

Yn ddiweddar mae'r Adran Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol wedi cynnal gwerthusiad o raglenni celfyddydol cymunedol ledled Cymru ochr yn ochr â chymaryddion rhyngwladol, sef *Changing Spaces – Building Social Capital in Wales through Cross-Sector Creativity*[2]. Y gobaith yw mai'r adroddiad, sydd i'w gyhoeddi'n fuan, fydd y cyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar weithgarwch y celfyddydau cymunedol a gefnogir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Nodau'r astudiaeth:

- Adolygu a dadansoddi polisïau dethol ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol sydd wedi'u llunio i hwyluso ac annog gwaith amlddisgyblaeth ym maes diwylliant, addysg, datblygu cymunedol, ieuenctid, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Adolygu ac archwilio theori ac ymchwil sy'n gysylltiedig ag arferion ar draws y sectorau
- Arolygu arferion, nodi astudiaethau achos defnyddiol a pharatoi canllawiau ar gyfer cydweithio ar draws y sectorau
- Nodi bylchau mewn polisïau, theori ac arferion sydd eisoes yn bodoli, sy'n rhwystro datblygiad partneriaethau effeithiol

[2] Changing Spaces - Building Social Capital in Wales through Cross-Sector Creativity - yr Athro Hamish Fyfe ac Emma Robinson, Adran Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Morgannwg

# Ymchwil yn y DU

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddogfen ymgynghori, Culture at the Heart of Regeneration[3] yn 2004. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Hydref 2004 ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Cynigir paratoi cynllun i'w gyflwyno yn gynnar yn 2005 sy'n rhoi sylw i'r materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac i'r tri phrif faes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodwyd gan yr Adran, sef:

- meithrin partneriaethau
- cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynllun
- atgyfnerthu tystiolaeth

Yn ei bapur ymgynghori, tynnodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sylw at rai negeseuon a gymerwyd o'u hymchwil hyd yma. Yn ogystal â nodi enghreifftiau o arferion da, nodwyd nifer o ffactorau sy'n ymddangos yn hanfodol i wneud y gorau o gyfraniad diwylliant i'r broses adfywio:

- rôl "hyrwyddwr" diwylliant o ran adfywio - gall fod yn unigolyn neu'n grŵp;
- integreiddio diwylliant yn ystod cam cynllunio strategol prosiect;
- sefydlu tîm prosiect amlddisgyblaeth;
- darparu gwerthusiad ffurfiannol o'r cam cynllunio;
- yr hyblygrwydd i newid cwrs os oes angen;
- ystyriaeth o ansawdd a hygyrchedd amgylcheddol – dylunio cyfleusterau a thir y cyhoedd, a'u hintegreiddio â gwasanaethau, er enghraifft trafnidiaeth;
- ymgynghori gwirioneddol â thrigolion, busnesau a rhanddeiliaid eraill;
- cydnabod cyfraniad yr holl randdeiliaid;

---

[3] Culture at the heart of regeneration (DCMS) http://www.culture.gov.uk/global/consultations/2004+closed+consultations/cons_culture_heart_regeneration.htm?properties=2004+closed+consultations%2C%2Fglobal%2Fconsultations%2F2004+closed+consultations%2F%2C&month=

- sicrhau bod y gymuned yn parhau i fod yn rhan o'r prosiect a'i bod yn teimlo ei bod yn "berchen" ar y prosiect drwy ofalu ei bod yn chwarae rhan uniongyrchol yn y gwaith o reoli, llywodraethu, cyflwyno a gwerthuso'r prosiect;
- sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn.

## Sport England

Mae cyfres Bwletin Cynllunio Sport England yn cynnwys bwletin ar Chwaraeon ac Adfywio[4] (Medi 2001). Mae'r bwletin yn rhoi sylw i gwestiynau allweddol:

- Pa mor effeithiol y gall chwaraeon fod fel catalydd ar gyfer adfywio?
- Pa enghreifftiau o adfywio llwyddiannus sydd yn y byd chwaraeon?
- Beth yw prif elfennau cynllun llwyddiannus?
- Beth yw rôl y system gynllunio yn y broses adfywio?

Mae'r bwletin yn datgan fod y term adfywio yn draddodiadol wedi'i ystyried yn nhermau economaidd ac amgylcheddol, ond yn fwy diweddar mae mwy o bwyslais wedi'i roi ar agweddau cymdeithasol a chymunedol ar adfywio. Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud bod adfywio'n cael ei gysylltu'n gynyddol â chynhwysiant cymdeithasol, gan geisio ailintegreiddio grwpiau o bobl sydd wedi'u heithrio o gyfleoedd gwaith, addysg a chwaraeon.

Mae Polisïau Cynllunio Sport England ar gyfer Chwaraeon yn cynnig yr amcan canlynol mewn perthynas â chwaraeon ac adfywio: 'Amcan 12 y Polisi Cynllunio: Hyrwyddo cyfraniad chwaraeon at adfywio trefol a chefnogi cynigion adfywio sy'n cynnwys chwaraeon fel rhan o gynllun cynhwysfawr ar gyfer ardal'.

Mae Sport England yn ceisio cynnwys polisïau mewn cynlluniau datblygu sy'n:

- cydnabod y rôl y gall chwaraeon ei chwarae mewn cynlluniau adfywio o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
- annog y ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon newydd i sicrhau bod trefi, dinasoedd a chymunedau gwledig yn parhau i fod yn lleoedd byw

[4] Sport England, Planning Bulletin Issue Ten September 2001 – Sport and Regeneration http://www.sportengland.org/downloads/planning10.pdf

- annog y defnydd o dir a dŵr nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer chwaraeon
- annog unrhyw ddatblygiad mawr i ystyried y potensial ar gyfer elfennau chwaraeon
- cydnabod bod yn rhaid adfywio chwaraeon ei hun drwy ddarparu cyfleusterau newydd a chyfleusterau gwell mewn ysgolion a chlybiau ac mewn gweithrediadau cyhoeddus a masnachol.'

## Barnardo's

Cynhaliodd Barnardo's, elusen plant fwyaf y DU, werthusiad o effaith rhaglen celfyddydau creadigol wedi'i hanelu at ieuenctid sydd wedi'u heithrio o'r gymdeithas, a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng y Theatr Genedlaethol Frenhinol a bwrdeistrefi Lewisham a Greenwich yn Llundain. Drwy dargedu pobl ifanc rhwng saith a 26 oed mewn ardaloedd o amddifadedd uchel, amcanion y rhaglen oedd gwella'r rhagolygon o ran cyflogaeth ac addysg, hyrwyddo adfywio cynaliadwy a lleihau eithrio cymdeithasol. Fel rhan o'r broses werthuso hon, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth i weld i ba raddau y mae prosiectau celfyddydol yn y gymuned wedi llwyddo i gyflawni gwelliannau cymdeithasol nodedig.

Ysgrifennwyd adroddiad ar yr adolygiad, *Do community-based arts projects result in social gains*,[5] yn 2001. Mae'r crynodeb o'r adroddiad yn datgan:

> *"Mae prosiectau celfyddydol wedi dod yn rhan bwysig o strategaethau datblygu cymunedol. Yn ogystal â chyflawni creadigol, disgwylir i brosiectau gael effaith bositif y gellir ei mesur ar gyfalaf cymdeithasol lleol. Mae sefydliadau ariannu fel arfer yn mynnu cael tystiolaeth o hyn, a bellach rhaid cytuno i werthusiadau ffurfiol o'r prosiect cyn y buddsoddir arian ynddo. Fodd bynnag, mae mesur effaith y celfyddydau o ran mantais gymdeithasol yn peri cryn anhawster, a gellir dadlau bod hynny'n fwy nag mewn unrhyw faes gwerthuso arall. Nid yw'r problemau hyn yn rhai trefnegol yn unig. Maent hefyd yn codi'r cwestiwn i ba raddau y gall - neu y dylai - prosesau creadigol gael eu rheoli."*

[5] Do community-based arts projects result in social gains – Barnardo's http://www.barnardos.org.uk/resources/researchpublications/documents/COMMARTS.PDF

## CYLCH GORCHWYL

Roedd Cylch Gorchwyl yr adolygiad yn nodi y byddai'r Pwyllgor yn adolygu ac yn ystyried:

- y cysylltiadau rhwng y polisïau ym meysydd y celfyddydau, chwaraeon ac adfywio cymunedol
- sut y gall prosiectau lleol ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon gyfrannu at adfywio cymunedol
- y dulliau cefnogi ar gyfer prosiectau ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon sy’n ymwneud ag adfywio cymunedol
- yr arferion gorau o ran prosiectau ym meysydd y celfyddydau a chwaraeon sy'n ymwneud ag adfywio cymunedol.

Cychwynnodd yr Adolygiad gydag ymgynghoriad ysgrifenedig ym mis Hydref 2003 yn gofyn am sylwadau erbyn mis Rhagfyr 2003. Daeth gwybodaeth ychwanegol i law yn ystod yr haf 2004.

At ei gilydd, daeth rhyw 49 o ymatebion i law (gweler Atodiad 4). Bu rhyw 13 o sefydliadau ac unigolion yn rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ar 11 Chwefror, 10 Mawrth a 31 Mawrth 2004. Cafwyd cyfle hefyd i holi sefydliadau eraill a ddaeth gerbron y Pwyllgor am yr Adolygiad, megis y Cyngor Prydeinig (12 Mai) a'r Gronfa Loteri Fawr (29 Medi) (Atodiad 3).

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig pan fu'n trafod ei adroddiad drafft rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2004.

Yn ogystal, bu aelodau'r Pwyllgor, yn unigol a chyda'i gilydd, yn ymweld â nifer o ddatblygiadau yng Nghymru ac Iwerddon:-

CARAD (Celfyddydau Cymunedol Rhaeadr a'r Cylch) (Lisa Francis AC - 2004)

PLANT Y CYMOEDD (Rosemary Butler AC, Leighton Andrews AC - 2004)

CANOLFAN PHOENIX (Townhill, Abertawe) (Rosemary Butler AC, Eleanor Burnham AC, Owen John Thomas AC - 2003)

BALLYMUN - (Rosemary Butler AC, Lorraine Barrett AC, Owen John Thomas AC, Eleanor Burnham AC, Denise Idris Jones AC - 2004)

(Ceir crynodeb yn Adran 2 ynghylch Arferion)

ATODIAD 3

## CYFLWYNIADAU LLAFAR

Cewch hyd i'r cyflwyniadau llafar yng nghofnodion y cyfarfodydd o dan **'Agendâu a Phapurau'** yn y cyswllt isod:
http://www.cymru.gov.uk/keypubassemcultwelsport/index-w.htm

**11 Chwefror 2004**

Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Huw Jones, Prif Weithredwr, Cyngor Chwaraeon Cymru

Howard Tolley, Cydgysylltydd Cynhwysiant Cymdeithasol, Cyngor Chwaraeon Cymru

Yr Athro Dai Smith, Dirprwy Is Ganghellor, Ymchwil ac Adfywio, Prifysgol Morgannwg

Yr Athro Hamish Fyfe, Cadeirydd, “Arts in the Community”, Prifysgol Morgannwg

**10 Mawrth 2004**

Alice Greenlees, Swyddog Polisi, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Bethan Lewis, Swyddog Polisi, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Lydia Bassett, Cydgysylltydd Cymru, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Aled Rhys Jones, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Ddrama Cymru

Steve Garett, Cadeirydd, Cymdeithas Artistiaid Cymunedol Cymru

Gillian Dale, Cyfarwyddwr, Dawns Gymuned Cymru

Susan Price, Cyfarwyddwr Gweithredol, Groundwork Cymru

Megan Wilde, Swyddog Cyfathrebu a Pholisi, Groundwork Cymru

Ruth Till, Cyfarwyddwr, Rubicon Dance

**31 Mawrth 2004**

Craig Jones, Rheolwr Datblygu Chwaraeon, Cyngor Sir Fynwy

Phil Cooke, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a Hamdden, Cyngor Sir Fynwy

Kevin Smith, Rheolwr Llyfrgelloedd a Diwylliant, Cyngor Sir Fynwy

Paul Frost, Pennaeth Hamdden a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Steve Thomas, Darpar Gyfarwyddwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Seimon Williams, Swyddog Polisi, Materion Addysg, Hyfforddiant a Diwylliant, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Peter Gomer, Prif Swyddog Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Angela Rogers, Cydgysylltydd Datblygu, engage Cymru

Geraint Talfan Davies, Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

Peter Tyndall, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru

Richard Turner, Uwch Swyddog Datblygu Strategol, Cyngor Celfyddydau Cymru

ATODIAD 4

## YMATEBION YSGRIFENEDIG

**Ymatebion i'r Adolygiad Polisi ar Gyfraniad y Celfyddydau a Chwaraeon at Adfywio Cymunedol**

Cewch hyd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn y cyswllt isod:
http://www.cymru.gov.uk/keypubassemcultwelsport/content/cascr-rspndnts-w.htm

Cyngor Celfyddydau Cymru

Celfyddydau Anabledd Cymru

Arts for Us

Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

CBAT Yr Asiantaeth Gelf ac Adfywio

Cyngor Sir Ceredigion

Canolfan Gelfyddydau'r Chapter

Dinas a Sir Abertawe

Columbia Publishing Wales Ltd

Dawns Gymuned Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynefin

Cyngor Sir Ddinbych

Cymdeithas Ddrama Cymru

engage Cymru

Cyngor Sir y Fflint

Groundwork Cymru

Herian Treftadaeth ar Waith

Gweithrediaeth Sefydliad Rheoli Hamdden a Mwynderau Cymru

Cyngor Sir Ynys Môn

Cymdeithas Gŵyl Maendy

Cyngor Sir Fynwy

Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

Cyngor Dinas Casnewydd

NoFit State Circus

Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

RNIB Cymru

Rubicon Dance

S4C

Theatr Byd Bychan

Celfyddydau Rhyngddiwylliannol De Cymru

Theatr Spectacle

Cyngor Chwaraeon Cymru

Dawns Tawe Afan Nedd

The Pioneers

Yr Academi Gymreig

Theatr Fforwm Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Prifysgol Morgannwg

Urdd Gobaith Cymru

Celfyddydau Cymunedol y Cymoedd a'r Fro

Celfyddydau Gwirfoddol Cymru

Cynulliad Merched Cymru, Caerdydd a Bro Morgannwg

Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru

Cymdeithas Artistiaid Cymunedol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Opera Cenedlaethol Cymru

Women In Tune

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam